ADRAN GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD, A THAI
CYNGOR SIR CAERFYRDDIN -
YR ADAIN HYFFORDDI

Y SECTOR ANNIBYNNOL
CAIS GAN GRŴP AM FYNYCHU CWRS HYFFORDDIANT

Rhestr o enwebiadau i fynychu digwyddiad hyfforddiant ***yn ôl trefn blaenoriaeth***

RHAN 'A' *(i'w chwblhau gan y rheolwr llinell)*

ENW'R CWRS:	
DYDDIADAU Y CWRS / CYRSIAU:	
Y DDYDDIAD CAU AR GYFER ENWEBIADAU:	Mis cyn dyddiad y cwrs
Y GOFYNION O RAN MYNEDIAD:	
ENW'R SEFYDLIAD / Y TÎM / LLEOLIAD GWAITH:	
CYFEIRIAD:	

RHAN 'B' *(i'w chwblhau gan y rheolwr llinell)*

ENWEBIADAU (yn ôl trefn blaenoriaeth, un enw i bob llinell)

RHIF	ENW (yn llawn, wedi'i brintio)	TEITL Y SWYDD	RHIF YSWIRIANT GWLADOL:	DYDDIAD A FFAFRIR
1				
2				
3				
4				
5				
6				

LLOFNODWYD:		**DYDDIAD:**	

AR ÔL CWBLHAU'R FFURFLEN HON, ANFONWCH (ERBYN Y DDYDDIAD CAU) AT:

E-bost (ffafrir y dull hwn):
GCTAdainHyfforddiant@sirgar.gov.uk

Cyfeiriad:

Yr Adain Hyfforddi (Swyddfa'r Cyfarwyddwr),
Yr Adran Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai,
Cyngor Sir Caerfyrddin,
3 Heol Spilman,
Caerfyrddin,
SA31 1LE

Ffacs:
(01267) – 223074

Ymholiadau dros y ffôn:
(01267) – 224826

Diogelu Data

Yr angen am wybodaeth bersonol
Bydd angen i Adain Hyfforddi Cyngor Sir Caerfyrddin gasglu a defnyddio mathau penodol o wybodaeth am y bobl sy'n cael hyfforddiant er mwyn cyflawni ei dyletswyddau o ddydd i ddydd. Ymhlith yr enghreifftiau y mae'r rheidrwydd i gofnodi, a lle bo'n ofynnol, rhoi gwybod am yr hyfforddiant deddfwriaethol a statudol a dderbynnir gan weithwyr gwasanaethau cymdeithasol a gofal, a chan unigolion sydd â chysylltiad â phlant ac oedolion agored i niwed. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn trin gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon ac yn gywir, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Diben gwybodaeth bersonol
Defnyddir system gyfrifiadurol o'r enw ResourceLink i gofnodi gwybodaeth am hyfforddiant yng Nghyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r system hon yn cofnodi pawb sy'n cael hyfforddiant drwy roi cyfeirnod hyfforddiant unigol i bob ymgeisydd. Yn achos gweithwyr y Cyngor, cofnodir yr hyfforddiant drwy ddefnyddio rhif y gweithiwr. Pennir rhif ymgeisydd unigryw ar gyfer pobl allanol sy'n cael hyfforddiant. Caiff rhifau ymgeiswyr eu creu er mwyn cofnodi camau hyfforddiant unigolyn ar Resourcelink e.e. o'r cam cyntaf pan gaiff ei enwebu hyd at y cam olaf pan gwblheir yr hyfforddiant. Er mwyn creu a chynnal y rhif ymgeisydd, bydd y wybodaeth y gofynnir amdani gan yr Adain Hyfforddi yn cynnwys enw'r sawl sy'n cael hyfforddiant, teitl, rhyw, swydd, cyflogwr, cyfeiriad, swydd a sefydliad blaenorol, a rhif yswiriant gwladol. Ystyrir bod y wybodaeth hon yn rhesymol ar gyfer sicrhau y cofnodir yn fanwl gywir yr hyfforddiant deddfwriaethol a statudol a dderbynnir gan weithwyr gwasanaethau cymdeithasol a gofal, a chan unigolion sydd â chysylltiad â phlant ac oedolion agored i niwed. Ar hyn o bryd y rhif yswiriant cenedlaethol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod cofnod unigolion yn unigryw o ran pobl sy'n cael hyfforddiant ac sydd â chysylltiad â phobl ac oedolion agored i niwed. Ni rennir y wybodaeth ag unrhyw sefydliad arall, na'r tu allan i Adain Hyfforddi y Cyngor.

Diogelwch
Caiff gwybodaeth bersonol a gofnodir (gan gynnwys rhifau yswiriant cenedlaethol) ei thrin yn gyfrinachol, ac mae rheolau llym o ran pwy sy'n gallu cael mynediad i'r wybodaeth hon drwy'r system Resourcelink neu drwy gofnodion papur e.e. cyfyngiadau ar fynediad i'r gweinydd, ystafelloedd ffeilio diogel. Mae'r personél hyfforddiant yn gwybod beth i'w wneud os gofynnir iddynt rannu neu ddatgelu'r data personol rydym yn ei brosesu, ac maent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r polisïau e.e. Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a'r dogfennau trefniadaethol a baratoir gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Gwaredir yr holl wybodaeth sy'n hen neu nad oes ei hangen mwyach, ac fe'i dinistrir yn gyfrinachol drwy ddefnyddio dulliau diogel.

Amodau ar gyfer prosesu data personol
Er mwyn cydymffurfio ag Atodlen 2 y Ddeddf Diogelu Data**, rhaid i'r holl reolwyr neu bobl â chyfrifoldeb sy'n cwblhau ceisiadau hyfforddiant sicrhau bod y sawl sy'n cael hyfforddiant (y sawl y mae'r data yn ei gylch) yn rhoi caniatâd yn unigol ar gyfer rhyddhau gwybodaeth bersonol at ddibenion cofnodi gwybodaeth am hyfforddiant gan Gyngor Sir Caerfyrddin.** Os yw'r sawl sy'n cael hyfforddiant yn dewis peidio â rhoi ei rif yswiriant cenedlaethol, ni fydd yn cael cynnig lle hyfforddiant.

Sylwch, os yw'r bobl sy'n cael hyfforddiant yn dewis peidio â rhoi'r wybodaeth resymol sy'n ofynnol i weinyddu data'n fanwl gywir, ni all Adran Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai Cyngor Sir Caerfyrddin gadarnhau bod y data hyfforddiant a gofnodir yn gywir. Felly mae'n bosibl na fydd unrhyw geisiadau am hyfforddiant yn y dyfodol a ddaw i law'r adran hon yn cynnwys manylion cwbl gywir am yr hyfforddiant y mae'r unigolyn wedi ei gael.